"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul

YR

YMOFYNYDD.

RHYDDID, GWIRIONEDD, CARIAD.

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1875. [RHIF 26.

CYNNWYSIAD.

	TUD.
Y Gwanwyn	25
Ychydig ymddyddan yn nghylch y Dall	27
Y Diarebion a'r Tywydd	31
Gofyniadau i'r Uniawngred	34
Y Cythreuliaid	37
Y Llyfr Emynau Newydd	38
Thomas Stephens	41
Bywyd Dynol	43
Synwyr Cyffredin	43
Manion	45
Gohebiaethau	46
Congl yr Holiedydd	46
Marwgofion	47
Priodasau	47
Barddoniaeth	48

Pris Tair Ceiniog.

ABERDAR:

ARGRAFFWYD GAN JENKIN HOWELL, 16, COMMERCIAL-PLACE.

YR

YMOFYNYDD.

Cyfres Newydd.] EBRILL, 1875. [Rhif. 26.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

Y GWANWYN.

"Come, gentle Spring, ethereal mildness come,
And from the bosom of yon dropping cloud,
While music wakes around, veil'd in a shower
Of shadowing roses, on our plains descend."

Nid oes dim yn eglurach yn y byd yma nâ'n bod yn byw yn nghanol cyfnewidiadau. Un genedlaeth sydd yn myned heibio, ac un arall a ddaw. Y mae felly yn nhymhorau y flwyddyn. Er ys ychydig yn ol, yr oeddem mewn byd diffrwyth, cloedig gan rew a thywydd garw, yr eira wedi disgyn a meddiannu yr holl dir, fel nad oedd glaswelltyn i anifail, na briwsionyn i aderyn; sain cân a moliant wedi dystewi yn mhlith y côr asgellog, a thrydar a griddfan wedi dyfod i mewn yn ei le. Teyrnasai dystawrwydd pruddaidd dros yr holl dir. Yr oedd gwedd farwol bron ar bob peth. Mor ddifrifol, sobr, llonydd, a dystaw yr ymddangosai natur! Pan yn ymwrando nid oedd swn i'w glywed. Erbyn heddyw y mae'r olygfa wedi cyfnewid. Yr ydym yn awr yn mwynhau y gwanwyn hynaws. Y mae natur wedi ymdrwsio yn ardderchog—pob deilen a phob blodeuyn yn eu dillad goreu. Y mae'r olygfa yn ddymunol dros ben—rhyw dawelwch a mawredd dwyfol fel yn gwenu yn ogoneddus ar y ddaear, a holl natur fel yn y teimlad o'r boddhad uchaf o dan ddylanwad y sirioldeb nefol. Mae y pyrth yn dechreu ymagor i ganol golygfeydd paradwysaidd; fel y dywed un: "Nature throws off her grave-clothes, and comes forth radiant in light and life." Mae y gwanwyn fel rhyw greadigaeth newydd—yn rhyw arddangosiad o holl brydferthion y Goruchaf. "Yr holl ddaear sydd lawn o'i ogoniant Ef." Cynhesrwydd a sirioldeb

wedi dychwelyd i fynwes pob aderyn ar ol gauaf diffrwyth ac oer, a phob un ag sydd yn berchen llais yn ei ddefnyddio gyda nerth adnewyddol, nes gwneyd i deml fawr a chyssegredig natur adseinio gan anthemau o fawl. Y blodau hwythau sydd i'w gweled yn ymloni, yn ymagor, ac yn estyn i fyny eu gyddfau i gofleidio a chusanu yr haul; y dolydd wedi ymwisgo mewn mantell amryliw; yr wyn yn ymbrancio ar y bryniau gwyrddion, a holl goed y maes yn curo dwylaw. Mor dlws a phrydferth yw y darluniad a rydd y bardd Hebreaidd o ddyfodiad y gwanwyn! "Canys wele y gauaf a aeth heibio, y gwlaw a basiodd ac a aeth ymaith. Gwelwyd y blodau ar y ddaear, daeth amser i'r adar ganu, clywid llais y durtur yn ein gwlad." Ond cyn i'r gwanwyn hynaws a'i brydferthion fyned heibio, priodol iawn fyddai i ni geisio sylweddoli pethau na ddiflanant. Mae natur wedi ei bwriadu i fod yn gyfrwng i arwain meddwl dyn at Dduw, ac y mae dyn wedi ei fwriadu i gymdeithasu ag anian, i fwynhau ei golygfeydd amrywiol a phrydferth, ac i wrandaw yn astud a myfyrgar ar ei moes-wersi. Mae Duw wedi trefnu tymhorau y flwyddyn i ateb amcanion moesol—i geisio gyru rhyw wirionedd perthynol i fywyd yn y byd hwn adref at galon dyn. Un o wersi cyntaf y tymhor gwanwynol ydyw gallu a nerth creadigol Duw. Yr Yspryd a ymsymmudodd ar y sylweddau annhrefnus gynt, ac a ddygodd i fod fyd prydferth allan o'r tryblith afluniaidd, yn unig a allasai ddwyn oddiamgylch gyfnewidiad gwyrthiol y tymhorau. Efe yn unig sydd yn alluog i gyfnewid gauaf garw a diffrwyth yn wanwyn prydferth a chyfoethog. Hebddo Ef, safai y cwbl ar darawiad; ni thyfai yr un llysieuyn, ac ni symmudai yr un awel. Ymollyngai natur ar unwaith i'w diffrwythdra a'i hannrhefn cyntefig. Hefyd, yn ein myfyrdodau ar y gwanwyn, dysgir ni am yr angenrheidrwydd wrth lafur a gweithgarwch, a bod llwyddiant yn ymddibynu yn gwbl ar fendith Duw. Camsyniad yw y dyb mai ffrwyth pechod yw llafur. Y mae llafur yn hanfodol i lwyddiant a chyssur dyn yn dymhorol ac ysprydol. Ofer ydyw i'r amaethwr ddysgwyl cnydau toreithiog yn y cynhauaf, heb drin a gwrteithio y ddaear i dderbyn yr hâd. "Y ddaear a roddes Efe i feibion dynion;" ond rhaid ei thrin a'i gwrteithio cyn y gellir dysgwyl cynnyrch oddiwrthi. Fel y mae llafur a gweithgarwch yn angenrheidiol i ni yn ein hymwneyd â phethau tymhorol, ac yn ein gyrfa trwy y byd; felly hefyd y mae yr un mor angenrheidiol i ni yn ein gyrfa grefyddol, ac yn wir, yn llawer mwy felly, o gymmaint ag y mae pethau tragwyddol yn gorbwyso pethau amserol. "Braenarwch i chwi fraenar," medd y proffwyd Jeremiah, "ac na hauwch mewn drain." Tymhor hau ydyw bywyd yn y byd hwn, ond ofer ydyw gwneyd hyny heb ddarpar y galon trwy y ddysgyblaeth angenrheidiol i dderbyn yr hâd. Y mae y ddaear yn ymddibynu yn gwbl am fywyd a llwyddiant ar fendith y nef. Priodol ydyw i'r amaethwr ar ol ei holl ddiwydrwydd ddymuno gyda'r bardd,—

> "Be gracious, Heaven; for now laborious man
> Has done his part. Ye fostering breezes blow;
> Ye softening dews, ye tender showers descend."

Y mae yn rhaid hau y gwirionedd yn y galon, ac y mae yn rhaid i'r galon gael ei pharotoi i'w dderbyn, fel y mae yn rhaid aredig a braenaru y tir cyn y tyfo yr egin ynddo.; ond etto y mae y cwbl o Dduw, yn llawn cymmaint ag y mae y cynhauaf addfed ar y maes wedi holl lafur yr amaethwr o Dduw. Priodol ynte dweyd gyda'r prophwyd, "Defnynwch, nefoedd, oddiuchod, a thywallted yr wybrenau gyfiawnder; ymagored y ddaear, ffrwythed, iachawdwriaeth a chyfiawnder cyd-darddant."

A. W. P.

YCHYDIG YMDDIDDAN YN NGHYLCH Y DALL.

PENNOD III.—*(Cyflwynedig i blant.)*

DAETH y plant drachefn yn nghyd i'r un lle, a rhyfedd mor hapus yr ymddangosent, ond nid oedd yr un o honynt yn ymddangos fwy felly nâ Mari fach. Yn mhen ychydig gwnaeth Mrs. Jones ei hymddangosiad yn yr ystafell, ac wedi siarad ychydig eiriau cariadus wrth ei merched a Mari fach, gafaelodd yn y Beibl a orweddai ar y ford o'i blaen a dywedodd,—"Yr ydym yn awr wedi dyfod at y Testament Newydd, a phwrpaswn ymddiddan â'n gilydd yn nghylch y personau hyny mae genym hanes am danynt fod yr Iesu wedi agor eu llygaid mewn ffordd na all neb agor llygaid dynion y dyddiau presenol. Yn y nawfed bennod yn Efengyl Matthew darllenwn am ddau ddeillion yn Capernaum, y rhai a ganlynasant yr Iesu gan ddywedyd,—"Mab Dafydd, trugarha wrthym," ac ni ddarfu iddynt lefain yn ofer, fel y mae llawer wedi llefain yn ofer o bryd i bryd am gymmwynasau llai eu pwys, gan ddynion calongaled. Nid yw ein Hiachawdwr yn oedi nac yn petruso dim yn nghylch cyflawni gweithred o drugaredd arnynt, ac felly i wobrwyo eu ffydd gadarn ynddo Ef fel un oedd yn rhagori o ddigon ar bawb dynion oeddynt wedi gweled neu glywed son am danynt yn flaenorol. Yn Efengyl Marc cawn ar ddeall fod pobl Bethesda wedi dwyn dyn dall at yr Iesu, ac yn deisyf arno gyffwrdd ag ef. (Gwel Marc viii. 22.) Cawn hanes yn Efengyl Matthew etto (pen. xx.) fod dau ddeillion yn eistedd ar fin y ffordd fawr, y rhai "pan glywsant fod yr Iesu yn myned heibio a lefasant, gan ddywedyd, Arglwydd, fab Dafydd, trugarha wrthym," ac er fod y dyrfa yn ceryddu y cyfryw fel y tawent, y mae'r Iesu tosturiol a thyner yn eu galw hwynt ato, "ac Efe a gyffyrddodd â'u llygaid, ac yn ebrwydd y cafodd eu llygaid olwg, a hwy a'i canlynasant Ef."

"Oh! mor dda genyf glywed am y fath weithredoedd rhyfeddol o gariadus," ebe Julia. "Mam dywedwch wrthyf a oedd yr Iesu yn llon a dedwydd pan wnelai bobl tlodion a thlawd yn ddedwydd?"

MAM.—"Oedd, fy anwyl; iechydwriaeth dyn oedd y peth yr amcanai ato bob amser, ac yn mhob modd y gallai."

Caroline.—"Ond ni feddyliwn i fod iechydwriaeth yn gynnwysedig mewn agor llygaid deillion."

Mam.—"Nid felly bid sicr, oblegyd y mae iechydwriaeth yn ei hystyr helaethaf yn golygu rhywbeth uwch a gwell nag hyd y nod agor llygaid deillion, a gweini at gysur corfforol dyn; modd bynag, gwyddom i'r Iesu tra yn aros yn mhlith dynion ar y ddaear, fyned oddiamgylch i wneuthur daioni, ac i gadarnhau ei athrawiaethau a'i addewidion goruchel a nefol, trwy y profion allanol yma o'i gariad at ddyn."

Caroline.—"Deallwn i y gwyddai Efe y buasai dynion yn talu sylw i'w ddysgeidiaeth pan gaffent eu hargyhoeddi pa gymmaint y gofalai am danynt."

Mam.—"Gwir fy anwyl, dyna beth oeddwn yn olygu ddweyd wrthych. Y mae yr Apostol Ioan yn croniclo digwyddiad hynod iawn yn ei Efengyl, hanes am yr hwn ydym yn cael yn y nawfed bennod. Cymmerodd le yn Jerusalem ar y dyn a anesid yn ddall. Y mae yr Iesu a'i ddysgyblion yn sefyll pan welsant ef, ac y mae'r Iesu yn sefyll i ymresymu yn bwyllog â hwynt gyda golwg i symmud ymaith eu rhagfarn, oblegyd rhaid i ni ddeall nad oedd hyd y nod ei ddysgyblion mwyaf goleuedig ac anwyl ddim wedi cael eu gwneyd hyd yn hyn y peth y dymunai Ef iddynt hwy fod, sef yn ddynion fuasent yn canfod llaw Duw yn gweithredu yn mhob peth mewn modd nad yw dyn, byr ei olygon, yn gallu rhoddi cyfrif am hyny bob amser. "A'i ddysgyblion a ofynasant iddo, gan ddywedyd, Rabbi, pwy a bechodd, ai hwn, ai ei rieni, fel y genid ef yn ddall?" Yr oeddynt hwy fel ereill o'u cydgenedl yn credu yn drwyadl mai effaith pechod ei rieni, neu ei bechod ef ei hunan oedd ei ddallineb. "Yr Iesu a attebodd, nid hwn a bechodd, na'i rieni chwaith; eithr fel yr amlygid gweithredoedd Duw." Ac yna y mae yn ychwanegu trwy ddywedyd, "tra yr ydwyf yn y byd, goleuni y byd ydwyf;" ac yna y mae yn adferu ei olwg i'r dyn dall, yr hwn, wrth bob tebyg, nid oedd fel ereill oeddynt yn dyoddef oblegyd yr un golled ag yntau, yn adnabyddus o'r ffaith mai Iesu oedd y Crist; ond ymddengys ei fod yn berffaith anwybodus o'r ffaith pwy oedd yr hwn a'i bendithiodd; ond tynai y casgliad ar unwaith nad oedd yn bossibl y gallasai y fath berson fod yn bechadur nac yn dorwr y Sabboth chwaith fel y tybiai ac yr haerai y Phariseaid ei fod. Dangosai pan yn ymddiddan neu yn dadleu â'r llywodraethwyr, ei fod yn ddyn o feddwl da, ac yn feddianol ar galon ddiolchgar, er na pherthynai i'r dosparth uwchaf o ddynion; etto nid ofnai sefyll yn gadarn dros yr iawn, ac hyd y nod i geryddu y sawl oeddynt mewn awdurdod, y rhai pan gawsent ar ddeall na fuasai efe yn siarad fel y dymunent am yr Iesu, a waeddasant,—"Mewn pechodau y ganwyd ti oll; ac a wyt ti yn ein dysgu ni? A hwy a'i bwriasant Ef allan." Ac wedi i'r Iesu gael ar ddeall fod y dall wedi cael ei fwrw allan, a phan ei cafodd, a oleuodd ei feddwl yn nghylch pwy, a pheth oedd Ef ei hunan, sef, Iachawdwr y byd; yna y mae yn ychwanegu, "i farn y daethum i'r byd hwn, fel y gwelai y rhai nid ydynt yn gweled, ac yr elai y rhai sydd yn gweled yn ddeillion.

JULIA.—"Mam, a wnaeth yr Iesu neb yn ddall erioed?"

MAM.—"Y mae yn golygu y buasai ei athrawiaeth yn euog-brofi dallineb yspryd rhyfygus sydd yn meddwl na all gamsynied. Y mae'r Iesu hefyd, wrth siarad yn ffugrol, yn golygu y bydd i'w athrawiaeth oleu a nefol Ef i godi a dyrchafu yr enaid isel sydd yn awyddus i ddysgu. Yr oedd y Phariseaid, y rhai oeddynt hynod ar gyfrif eu hyspryd balch a rhyfygus, yn deall ei feddwl, ac wedi eu brathu i'r byw gan yr ymwybodolrwydd o gymmwysiad y wers attynt hwy; er hyny gomeddasant gymhwyso ei gwirionedd attynt eu hunain yn y fath fodd ag i feddalhau neu dymheru eu calonau, i ddiwygio eu bywydau; ond gyda chalonau megys wedi eu serio ag haiarn poeth gofynent, "ydym ninnau hefyd yn ddeillion?"

"Beth ddywedodd yr Iesu mewn attebiad Mam?" ebe Julia.

Adroddodd ei mam yr adnod olaf yn y bennod, sef, "Yr Iesu a ddywedodd wrthynt, pe deillion fyddech, ni fyddai arnoch bechod; eithr yn awr meddwch chwi, yr ydym ni yn gweled; am hyny y mae eich pechod yn aros."

"Nid wyf yn ei ddeall," ebe Julia yn sarug.

Ymddengys ei bod wedi blino bod yn dawel ei hunan dros gymmaint o amser, a dyma fel y mae llawer o ferched bach os bydd ganddynt ddigon i ddweyd drostynt ei hunain, ac yn awyddus fel Julia i siarad. Hefyd, ni charai drafod rhyw un pwnc dros amser maith. Yr oedd yn awyddus i newid yr ymadrodd; ond gan fod y fam yn awyddus i oleuo meddwl ei phlentyn, dygai dan ei sylw, o bryd i bryd, bynciau gwir deilwng o'i sylw, a siaradai mewn tôn gariadus wrthi. Ar yr achlysur dan sylw dywedodd wrthi, "cymmerwch drafferth i feddwl ychydig ar y pwnc Julia, ac efallai y deallwch ef yn drwyadl; os gwnewch felly ni ellwch lai nâ chael eich argyhoeddi fod yr Iesu yn dysgu gwers bwysig iawn yn yr adnod."

"Ond ni allaf" ebe Julia, "yr wyf yn rhy fach a rhy ieuanc i ddeall y Beibl."

"Yn awr" ebe ei mam, "Meddyliwyf eich bod chwi eich hunan yn egluro y testyn, wrth yr hyn wyf yn golygu fod y sawl sydd yn glynu wrth ei beiau, neu yn eu gwadu, ar y ffordd sydd yn arwain i dywyllwch; ond bydd i'r sawl a gyffesant eu pechodau, a gofidio oblegyd eu hanwybodaeth i gael eu gwneyd yn ddoeth a da. Yn awr, os gwell genych fyned allan o'r ystafell. nag aros i mewn gellwch fyned; ni ellir eich gorfodi i ddysgu gwersi doethineb; ni ellir eu hargraphu ar eich meddwl yn groes i'ch ewyllys, ac os dewisa Caroline a Mari fach aros i mewn, gallwn siarad dipyn yn mhellach ar y pwnc."

"Na, na, na, mi arosaf, ac ymdrechaf ddeall," ebe Julia, gan wrido; ac aros wnaeth, ac ymdrechodd fod yn blentyn da, ac fe gafodd ei mam ei boddio yn fawr wrth ei gweled yn gwneyd y fath ymdrech egniol i feistroli ei natur trwy ddarostwng ei nwydau afreolus.

"Gofynasoch i mi ychydig fynydau yn ol," ebe Mrs. Jones, "os gwnaeth yr Iesu unrhyw ddyn yn ddall erioed. Y mae hanes ei fod wedi dallu un person dros ychydyg amser, gyda golwg i'w wneyd yn wir ddoeth; neu iddo gau y llygad naturiol gyda golwg i agor yr un

ysprydol, ac i'w wneuthur yn offeryn ewyllysgar yn llaw Duw y nefoedd i agor llygaid y sawl oeddynt yn gorwedd mewn tywyllwch meddyliol, ac i'w gwneyd yn ddynion rhyddion oddiwrth rhagfarn a phechod, a phob peth sydd groes i athrawiaeth iachus, a gelynol i wir gysur yr enaid dynol. A ydych chwi yn gwybod am bwy yr wyf yn siarad?"

"Na, mam, nid wyf fi," ebe Julia.

"Meddyliwyf," ebe Caroline a Mari fach ar yr un pryd, "meddyliwyf taw Saul oedd. Ac i ba ddyben, meddwch chwi, y gwnawd ef yn ddall?"

"Heblaw y rhesymau uchod, y mae ereill i'w cael," ebe Mrs. Jones. "Yn y lle cyntaf, wele yr hwn oedd ar ei ffordd i Damascus yn chwythu bygythion a chelanedd yn erbyn dysgyblion yr Arglwydd, ac yn mhellach yn gofyn am lythyrau gan yr archoffeiriaid, fel y gallai fyned i mewn i'r synagogau a dwyn gwyr a gwragedd yn rhwym i Jerusalem,—wele yr adyn hwn yn cael ei wneyd yn isel a gostyngedig, ac yn cael ei dywys erbyn ei law i Damascus. A all unrhyw beth wneyd yn fwy amlwg y gallu dwyfol i atal a throi dyn drwg yn ddyn da nâ'r hanes ydym yn gael am droedigaeth Saul? Etto, ystyriaf ei fod wedi cael ei wneyd yn ddall fel y caffai amser digonol i fyfyrio, ac edrych i mewn i'w galon ei hun; i ystyried a meddwl beth oeddynt y cymhelliadau a'i harweiniodd i weithredu mor greulawn a chiaidd yn y gorphenol, ac yna i gywilyddio ac edifarhau o'u plegyd, ac hefyd i fyfyrio ar ragorol werth a phwysigrwydd y grefydd newydd, yr hon oedd felly wedi cael ei chymmeradwyo iddo ef. Gall hyn fod yn rheswm arall, sef, fel y buasai i ganlynwyr Crist yn Damascus, y rhai oeddynt o bossibl wedi clywed am, ac yn dychrynu oblegyd dynesiad y gelyn, ymgyssuro a thawelu eu meddyliau wrth glywed am ei ddallineb, ac i gael eu hargyhoeddi yn gadarnach nag erioed fod yr Arglwydd yn gofalu am danynt, ac yn peri i bob peth gydweithio er eu daioni. Oni buasai yr arwydd allanol weledig hon, er eu bod wedi ei chlywed ar ei droedigaeth, ni fuasent, wrth bob tebyg, yn credu hyny ar y cyntaf, a bod yn barod i roddi coel iddo pan yn pleidio achos eu Meistr croeshoeliedig gyda nerth ac awdurdod mawr yn eu plith. Felly y gwelwch mai gwirionedd oedd yr hyn a ddywedasai y lluaws am yr Iesu unwaith, sef, "Da y gwnaeth efe bob peth; y mae efe yn gwneuthur i'r byddariaid glywed, ac i'r mudan lefaru;" ie, da y gwnaeth pan roddodd ei olwg i'r dall, a phan wnaeth yn ddall un oedd, yn ei ryfyg, yn meddwl ei fod yn gweled."

"Ond meddyliwn i, mam, fod yr Iesu yn caru Saul," meddai Julia.

MAM.—"Onid ydych yn meddwl felly yn bresenol, Julia? A ydych chwi yn meddwl fod ei golled amserol o'i olwg yn anffawd mor fawr fel na allasai goleuni tragwyddol gwirionedd Duw fod yn ddigon o iawn am hyny? Ah, fy mhlentyn, pe na buasai ei olwg yn cael ei adferyd o gwbl, buasai y rhodd a dderbyniodd y diwrnod hwnw, sef calon newydd ac yspryd newydd, yn ei wneuthur y diwrnod mwyaf bendigedig o'i oes! Yn y drydedd bennod ar ddeg yn llyfr yr Actau, cawn hanes fod Paul wedi taro yn ddall, dros amser, ddyn oedd yn

gwrthwynebu yr Efengyl, neu am ei fod wedi ei wrthwynebu ef a Barnabas pan yn traethu eu cennadwri nefol i Sergius Paulus, yr hwn oedd wr call. Elymas y swynwr oedd y dyn a gafodd ei daro yn ddall. Ei enw Iuddewig oedd Bar-iesu, hyny yw, mab Iesu?"

JULIA.—"Paham y gelwid dyn drwg yn fab Iesu?"

MAM.—"Nid oedd yr enw Iesu, fy anwyl, yn gyfyngedig i Grist. Ond yr ydym wedi siarad digon yn bresenol." Yr oedd Julia, Caroline, a Mari fach wedi talu sylw difrifol iawn i'r oll a ddywedai Mrs. Jones. "Ac yn awr," meddai, "fy anwyl ferched bychain, ewch a difyrwch eich hunain oreu y galloch hyd amser gwely."

Felly y siaradodd y fam gariadus, ac yna gadawodd y rhai bychain i fwynhau eu hunain yn eu ffordd eu hunain y gweddill o'r noson.

M. B.

Y DIAREBION A'R TYWYDD.

ADRODDIR stori am Moore, yr almanaciwr enwog. Yr oedd, ar un achlysur, ar ei geffyl yn myned trwy'r wlad, pan y dywedodd crwt o fugail wrtho am beidio myned yn mhell iawn, fod storom o wlaw ar bwys. Aeth Moore, fodd bynag, rhag ei flaen heb wneuthur un sylw o rybudd y crwt. Ond nid aeth yn mhell cyn bod ystorom ddychrynllyd yn ymarllwys ar ei ben. Aeth yn ei ol cynted y gallai, ac wedi cael gafael yn y bachgen, gofynodd iddo sut yr oedd yn gallu proffwydo am y tywydd mor dda. Pallodd y bachgen ag ateb ar y cyntaf, ond wedi hir gipian, a chael hanner coron i'w law, atebodd: "Wel, os byth y gwelwch yr eidion gwyn acw yn troi ei gynffon ar y gwynt, yr ydych yn sicr o wlaw yn mhen hanner awr." Nid yw yr hanes yn dywedyd pa un a oedd Moore yn teimlo ei fod wedi cael gwerth ei arian neu beidio. Tynir casgliadau yn fynych yn nghylch y tywydd, oddiwrth symmudiadau gwahanol anifeiliaid, ac mae'r darllenydd ond odid yn gwybod am lawer o ddywediadau ar y pwnc. Er enghraifft, dywedir, os ar ddiwrnod gwlyb y gwelir y da ar y caeau wedi myned yn gyffredinol i orwedd, ei fod yn arwydd fod newid gerllaw. Dywedir hefyd, os bydd y da yn aros ar ben y bryniau, y bydd y dydd yn deg; ond os disgynant i'r dyffrynoedd, y try yn wlyb. Os bydd ci yn pori, os bydd yr hwyaid yn cadw swn ar y llyn, mae'n arwydd o wlaw. Mae gwir yn ddiamheu yn rhai o'r hen draddodiadau yma, a dangosant fod llawer o sylw yn cael ei dalu gynt i arwyddion y tywydd gan lawer. Ond y mae lle i ofni fod llawer o'r dywediadau a glywn heb ond ychydig o sail iddynt. Casgliadau ydynt oddiwrth gynseiliau annigonol. Nid yw fod un peth yn canlyn peth arall ddim yn brawf digonol fod y peth arall hwnw yn achos iddo. Nid yw fod haf poeth wedi canlyn ymddangosiad seren gynffonog ddim yn brawf mae'r seren oedd achos y poethder. Peth a gredir yn gyffredin iawn yw, os

bydd Dydd Sant Swithin (Gorph. 15) yn wlyb, y bydd y deugain diwrnod sydd yn canlyn yn wlyb hefyd; os yn sych, y bydd y deugain diwrnod sydd yn canlyn yn sych hefyd. Digon possibl fod peth felly wedi dygwydd rai prydiau, ond fod y peth yn rheol sydd gwbl ddisail. Yn yr ugain mlynedd cyn 1861, a chymmeryd y cyfartaledd, cafwyd y rhif mwyaf o ddyddiau gwlybion ar ol Dydd Sant Swithin, pan oedd Gorph. 15fed wedi bod yn sych. Dywediad arall ag mae sylw manwl wedi ei brofi yn ddisail yw yr un yn nghylch yr onen a'r dderwen.

Os y dderwen ddeila gynta'
Haf o sychder a ganlyna;
Os dail yr onen gyntaf welir,
Mae haf gwlyb yn eithaf sicir.

Y ffaith yw nad oes yr un tymhor yn gweled yr ŷn yn deilo o flaen y derw—y derw ydynt yn deilo gyntaf bob amser. Mae'n wir y ceir ambell i onen mewn lle ffafriol weithiau yn bwrw dail o flaen y dderwen; ond nid yw un onen yn gwneuthur rheol yn fwy nag y mae un wenol yn gwneuthur haf. Rhaid i ni beidio bod yn rhy barod i gymmeryd doethineb ein hynafiaid yn ganiataol. Nid yw'r hen ddywediadau na'r hen ddiarebion ddim i gyd yn wir. Etto byddai yn werth i ni i dalu sylw mwy manwl iddynt, a cheisio cael allan pa rai o honynt sydd yn darlunio ffeithiau, a pha rai na sydd. Ni ddylid gadael iddynt fyned i golli. Mae llawer o honynt nad ydynt i'w cael ond ar lafar gwlad, a digon tebyg y byddant yn y man wedi myned allan o bob gafael. Gadawer i ni gael casglu a allom o honynt, ac wedi hyny chwilio i mewn pa faint o wir sydd ynddynt. Mae gan ein cymmydogion Seisnig eu cronfäau yn derbyn yn barhaus y dafnau yma o ddoethineb ein hynafiaid. Wele yn bresenol linc fechan o'r hyn a obeithiaf yn y dyfodol weled yn gadwen gref:—

"Gauaf cynnar hir y trig." Mae pob arwyddion y gwireddir y ddiareb hon eleni. Mis gwyntog yw Chwefror yn arfer bod yn nhyb y Cymry. "Chwefror chwyth, y neidr o'i nyth." "Chwefror chwyth, y 'deryn bach oddiar ei nyth." Ond aeth Chwefror heibio heb fawr gwynt eleni. Gyda'r Saeson mis Mawrth yw'r mis gwyntog. "March winds and April showers, bring forth May flowers." Mis chwerw yw mis Mawrth yn arfer bod, o leiaf ran o hono: y dywediad yw, os daw e' i mewn fel yr oen, yr aiff allan fel y llew, ac os daw i mewn fel llew, yr aiff allan fel oen. Diareb arall a ddywed, "Mawrth a ladd, Ebrill a fling," ac mae rhywun wedi ychwanegu, "Rhwng y ddau, cawsom fod heb ddim." Ffurf arall ar y ddiareb sydd fel yma,—"Mawrth yn lladd, Ebrill yn blingo, rhwng y ddau cawsom fod hebddo." Yn mis Mawrth, fynychaf, ceir y gwynt o'r dwyrain, a gelwir ef yn wynt traed y meirw. Mae'r Sais yn ei ddysgrifio, "When the wind is from the east, it blows no good for man nor beast." Drwg os gwir, ac fel y dywed diareb arall, "It is an ill wind that blows nobody any good," ac mae'n anhawdd credu nad oes peth daioni hyd y nod mewn *east wind*. Wrth chwilio i wiredd y diarebion, dylid cofio mai "Po mwyaf y brys, mwyaf fydd y rhwystr." Mae'n ddiau fod pob gwynt yn dda,

a phob tywydd yn dda, yn ei le ac i'w bwrpas. Hen ddywediad y mynych wirir ef yw, "Hir ddysgwyl am wlaw, o'r dwyrain y daw," ac un arall a ddywed, "Os collwn yr hindda, o'r dwyrain ddaw gynta'." Mis yr hau yw mis Mawrth, ac mae tywydd sych yn werthfawr, felly'r ddiareb, "Pecaid o luwch Mawrth sydd werth ei bwysau'n aur." Ychydig o ddiarebion sydd genym am fis Ionawr: "Haul yn Ionawr ni mad welawr, Mawrth a Chwefrawr a'i dialawr." Wele un ddiareb arall am Fawrth, "Mal eiry Mawrth ar ben maen," ac am Ebrill, "Ebrill garw, parchell marw." Mewn cyssylltiad à Mai ni gawn,—"Blodau cyn Mai malpai na bai." "Haf hyd Galan, gauaf hyd Fai." "Gymmaint a gano'r adar cyn Gwyl Fai, hwy a'i llefant cyn Gwyl Ddewi." "Mai oer, 'sgubor lawn." "Mai oer a wna ysgubor gynhes." Am y mis canlynol,—"Mehefin heulog a wna medel moch ddwyreog." Mae'n amheus genyf a oedd Gorphenaf bob amser yn nghalaniadur yr hen Gymry; o leiaf, nid oes genyf fi yr un ddiareb ar y mis, a dim ond un am Awst,—"Son am Awst wyliau'r Nadolig," hyny yw, pan fyddo yn rhy ddiweddar. Diareb y Sais yw, "Cry over spilt milk."

Mewn cyssylltiad à'r tymhorau, cawn amryw. Mae'n bossibl fod rhywbeth yn y syniad mai fel bo'r gauaf y bydd yr haf—fod rhyw gyssylltiad. Dywedir fod newidiadau y tywydd yn talu i'w gilydd yn deg iawn—fod eithaf *balance-sheet*, un cywir rhwng gwlybin a sychin. Bernir fod cylchdroadau'r tywydd o fewn deng mlynedd yn mantoli'r gwlyb a'r sych. Ond i gadw at y pwnc:—"Gauaf cynnar, hir y trig." "Gauaf glas, mynwent fras." "Gauaf gwlyb, mynwent lawn." "Calangauaf garw hin, aunhebyg i gynnefin." "Ef a ddaw haf i gi." "Gwell hanner hâd nâ hanner haf." "Nid y bore mae canmol diwrnod teg," meddai'r ddiareb. "Anhawdd i'w adwaen yw'r diwrnod." Fel y dywed Iago ab Dewi?—

> Tri pheth anhawdd eu 'nabod,
> Dyn, a derwen, a diwrnod.
> Y dydd yn hir, y pren yn gau,
> A'r dyn yn ddau-wynebog.

Ac etto ni a fynwn yn barhaus broffwydo'r tywydd, ac yr ydym yn fynych yn llwyddo. Mae rhai na wyddant ddim am y pwnc. 'Rwy'n cofio gofyn i hen wr sut ddiwrnod y byddai, a'i ateb ysmala oedd, "I am not weather-wise, I am otherwise." 'Rwy'n cofio gofyn i un arall a wyddai rhywbeth, ond yr oedd hwnw yn byw yn Llundain, ac mae pobl gall yno—rai. Gwyr y darllenydd beth maent yn wneuthur yn Llundain pan fyddo'n bwrw gwlaw. Ond—yr oedd y diwrnod yn wlyb ac yn fygythiol iawn, a gofynais i'r hen frawd—hen filwr—sut brydnawn fuasai. "Oh," meddai, "chawn ni ddim rhagor o wlaw, mae'r haul wedi myned heibio i'r gwynt." Esponiodd, os bydd y gwynt yn y de, ac os dygwydd iddi glirio tua chanol dydd, hyny yw, pan fyddo'r haul yn myned heibio'r de, mae gobaith am brydnawn gweddol. Felly y bu y tro hwnw fodd bynag. Ond meddai diareb arall, "O bob ffordd o'r awyr ydd ymchwelo'r gwynt y daw gwlaw." Os felly, yr ydym etto yn gorfod addef mai peth ansertenol iawn yw'r tywydd. Ac ni wna'r ddwy ddiareb yma ddim llawer i oleuo'r pwnc;

"Bore brwynog dradawg iair." "Bore coch a mawredd gwraig." Mae rhai diarebion yn ddiamheu yn lleol, ac yn wir feallai yno, ac mae rhai pennillion yn wir yn lleol feallai hefyd.

Pan byddo'r niwl ar dwyn Penlan,
Y mae e'n arwydd i gryf a gwan,
Y daw y gwlaw o'r wybr las,
I rwystre'r dynion weithio ma's.

Mae rhai ardaloedd yn fwy tueddol i wlaw nâ'u gilydd. Ceir cymmaint arall o wlaw yn ambell i fan ag a geir mewn man arall heb fod yn mhell oddiwrtho. Mae Caerfyrddin yn ddiarebol wlyb, ac wedi cael yr enw o biswail Cymru. Mae'n debyg fod cymmydogaeth y Senni yn dwyn yr un cymmeriad, heblaw cymmeriad am beth arall a gwaeth. Sylwn ar y pennill canlynol :—

Mi rof fy llaw a'm llygad,
Os bydd blaen Senni heb gawad,
O ddechreu Mawrth hyd ddiwedd Mai,
A chylch y tai heb ladrad.

Ac yn awr, un ddiareb arall i derfynu :—"Col, meddai'r fran pan gaffo hi ddigon," ac yr wyf yn ofni dy fod dithau, ddarllenydd anwyl, yn hir cyn hyn wedi dywedyd "Col" hefyd.

Mawrth 3, 1875. T. C. U.

GOFYNIADAU I'R UNIAWNGRED.

"Byddwch barod bod amser i atteb i bob un a ofyno i chwi reswm am y gobaith sydd ynoch, gydag addfwynder ac ofn."—1 Petr, iii. 15.

(1.) *Byddwch barod* i roi atteb. (2.) Byddwch barod *bob amser*—peidiwch taflu gofyniad heibio. (3.) Byddwch barod bob amser i roi *atteb*—mae ysgoi gofyniad yn creu drwgdybiaeth. (4.) Rhoddwch atteb i *bob un* sydd yn gofyn i chwi. (5.) Gofynir am *resum*—nid haeriad. (6.) Dylai yr atteb fod yn reswm am *y gobaith* [nid yr ofn] sydd ynoch. (7.) Dylai'r gofyniad gael ei atteb [nid mewn nwyd, ond] gydag addfwynder tuag at ddyn, a pharchedig ofn tuag at Dduw.

---

1. Gan y gofynir arnom *ni* i garu ein gelynion, a allwn ni yn ddyogel gasglu fod Duw yn caru ei elynion *Ef*?
2. Os yw Duw yn caru Ei elynion, a ydyw yn debyg y cospa Efe hwy yn rhagor nag sydd er eu lles?
3. A fyddai cosp diddiwedd er lles unrhyw fod?
4. Gan fod Duw yn caru Ei *gyfeillion*, os ydyw yn caru ei elynion hefyd, onid yw holl ddynolryw yn wrthddrychau Ei gariad?

5. Os yw Duw yn caru yn unig y rhai sydd yn ei garu Ef, pa faint gwell yw Efe na'r pechadur. Luc vi. 32, 33.

6. A all Duw fwriadu dinystr tragywyddol un enaid?

7. Gan y gorchymynir i ni i beidio cymmeryd ein gorchfygu gan ddrygioni a allwn ni yn ddyogel dybied y caiff Duw ei orchfygu gan ddrygioni?

8. Ai ni fyddai cosp dragywyddol yn profi fod *Duw* wedi ei orchfygu gan ddrygioni?

9. Os yw dyn yn ymddwyn yn *wrong*, wrth ddychwelyd drwg am ddrwg, ai ni fyddai Duw yn ymddwyn yn *wrong*, pe gwnai yr un peth?

10. Gan ein bod *ni* yn cael ein gorchymyn i "orchfygu drygioni trwy ddaioni," a allwn ni ddim casglu yn rhesymol y gwna *Duw* yr un peth?

11. A fyddai Duw, trwy osod mewn gweithrediad gosp dragywyddol yn gorchfygu drygioni trwy ddaioni?

12. Os yw Duw yn cashau y pechadur, a ydyw'r pechadur yn *wrong* wrth ei gashau *Ef*?

13. Os yw Duw yn caru ei elynion yn awr, ai ni chara Efe hwy bob amser?

14. Pe byddai genych chwi allu digonol, oni fyddech yn barod i achub yr holl hiliogaeth?

15. A ydych chwi yn fwy trugarog na'r Duw a'ch gwnaeth chwi?

16. A ydyw Duw yn *dymuno* iachawdwriaeth pawb?

17. A ydyw pob person yn rhwymedig i fod yn ddiolchgar am ei fodolaeth?

18. A fydd i'r rwymedigaeth yma barhau am byth?

19. A all unrhyw un fod yn ddiolchgar am yr hyn nad yw, ar y cyfan, yn fendith?

20. Os caiff neb ei gondemnio i fod yn druenus am byth, a fydd e' o hyd yn rhwymedig i fod yn ddiolchgar i Dduw am ei fodolaeth?

21. Ai nid yw pechod yn teilyngu maddeuant, yn ol y mesur y byddo'r pechadur yn naturiol yn wan?

22. A all pechod un sydd yn wan, fod yn drosedd anfeidrol?

23. Os na all dyn gyflawni trosedd anfeidrol, a all e' haeddu cosp dragywyddol?

24. A fyddai cosp dragywyddol yn gweini pleser i'r Duwdod?

25. A ydyw yn bossibl i Dduw gael ei ogoneddu gan yr hyn nad yw yn gweini pleser iddo?

26. A all trueni diddiwedd gael ei ddwyn oddiamgylch yn erbyn *ewyllys da* yr Hollalluog?

27. A oedd Duw yn gwybod pan y creodd dyn, y byddai rhan o'i greaduriaid yn druenus am byth?

28. Os nad oedd Duw yn gwybod pan yn creu, ganlyniad ei weithred, a ydyw Efe yn anfeidrol yn ei wybodaeth?

29. Os oedd Duw yn gwybod, pan y creai ddyn, y byddai rhai mewn gwae tragywyddol, ai ni ddarfu iddo ewyllysio mai hyn fyddai eu tynged?

30. Os ewyllysiodd Duw drueni diddiwedd i rhan o'i greaduriaid, paham y dywedir ei fod yn ewyllysio fod pob dyn yn gadwedig? 1 Tim. ii. 4.

31. Pe byddai'r Ysgrythyrau yn tystiolaethu am Dduw ei fod yn ewyllysio fod pob dyn yn golledig, a allem ni gasglu yn ddiogel, fod rhan i gael eu hachub?

32. Gan fod yr Ysgrythyrau yn tystiolaethu mai ewyllys Duw yw bod pob dyn yn gadwedig, a allwn ni gasglu yn ddiogel fod rhan i gael eu damnio?

33. Os oes diafol personol, pwy a'i gwnaeth?

34. Gan fod pechod yn rhagdybied temtiad o ryw fath, *pwy* neu *beth* demtiodd angel santaidd i bechu?

35. Os gallai *angel* bechu heb ddiafol i'w demtio, a allwn ninau ddim pechu heb ddiafol i'n temtio?

36. Os cafodd angel santaidd ei demtio i bechod gan y drwg oedd yn ei amgylchynu, a ydyw y nefoedd yn le santaidd?

37. Os cafodd angel ei demtio gan nwydau drwg, a allasai efe fod yn santaidd?

38. Os aeth angel yn ddiafol trwy bechu, ai pechod Adda oedd yr un *gwreiddiol*?

39. Os pechodd Adda heb etifeddu unrhyw lygredd, paham mae llygredd genedigol yn cael ei ystyried fel achos ein pechodau ni?

40. A fyddai rhagor o anmhriodoldeb mewn cyfrif fy mhechodau *i* i Adda, nag mewn cyfrif ei bechodau *ef* i *mi*?

41. Os yw rheswm dynol yn gnawdol a thwyllodrus, paham y dyweda Jehofah, "deuwch yr awrhon ac ymresymwn?" Isa. i. 18.

42. Os yw rheswm yn dwyllodrus, paham y mae rhai dynion yn ymresymu yn erbyn defnyddio rheswm?

43. Os "ydym ni yn caru Duw, am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni," a ydyw yn wir fod yn rhaid i ni yn gyntaf ei garu *Ef*, cyn y cara Efe ni? 1 Ioan iv. 19.

44, Os "oeddem ni yn ei garu Ef, am iddo Ef yn gyntaf ein caru ni," ai nid yw yn amlwg ei fod Ef yn ein caru *ni*, pan nad oeddem ni yn ei garu *Ef*?

45. Os oedd Duw yn ein caru ni, pan nad oeddem ni yn ei garu Ef, ai nid yw ein cariad ni ato Ef, yn *effaith* (ac nid yn *achos*) o'i gariad Ef atom ni?

46. Os carodd Duw ni unwaith, oni pharhâ Ef i'n caru am byth?

47. Os cariad Duw sydd yn cynnyrchu cariad mewn dyn, a all llid a digofaint gynnyrchu cariad?

48. Os yw Duw o dan unrhyw amgylchiadau yn ewyllysio trueni unrhyw enaid dynol, yn mha beth mae E'n gwahaniaethu oddiwrth Satan?

49. A all Iesu fod "yn Iachawdwr i'r byd" os nad yw'r byd i gael ei achub trwyddo?

50. Os na elwir ar annghredinwyr i gredu yn Nghrist fel eu Hiachawdwr, pa beth y maent i'w gredu?

51. Ai nid yw yn angenrheidiol fod y peth sydd i gael ei gredu, yn wir, *cyn* y byddo yn cael ei gredu?

52. Ai nid yw yn angenrheidiol fod y peth sydd i gael ei gredu yn parhau i fod yn wir, pa un ai y credir, neu yr anghredir ynddo?

53. "Beth os anghredodd rhai? a wna eu hanghrediniaeth hwy ffydd [neu ffyddlondeb Duw] yn ofer." Rhuf. iii. 3.

54. A ydyw yn wir fod "Duw wedi eu cau hwynt oll allan mewn anufudd-dod, fel y trugarhâi wrth bawb?

55. A all Duw fod "yn enwedig yn Achubydd y ffyddloniaid," os nad yw Efe mewn gwirionedd yn Achubydd pob dyn? 1 Tim. iv. 10.

(I'w parhau.)

ANON.

"Y CYTHREULIAID."

BETH a olygir wrthynt? Nid yw y gair yn dygwydd ond pedair o weithiau yn yr Hen Destament. Mewn dau fan y gair gwreiddiol yw *shedim*, yn golygu bronau a thethi (Lef. xvii. 7, Deut. xxxii. 17, 2 Cor. xi. 15, Psal. cvi. 37). Parkhurst a ddywed,—"Enw gwrrywaidd yn y rhif luosog ydoedd yn cael ei roddi gan yr Hebreaid i'r eilunod a addolid gan breswylwyr gwlad Canaan" Un o'r *shedim* yma oedd *Isis* yr Aifftiaid, yr hwn a elwir *multimammiae*, neu luaws-fronedig, neu yn orchuddiedig gan fronau. *Seirim* ddwywaith allan o hanner cant o enghreifftiau yn golygu cythreuliaid. Arddangosa rhywbeth blewog; daeth i olygu bwch blewog. Yr oedd yr Aifftiaid a chenedloedd ereill yr amser hwnw yn ei addoli fel arwydd o ffrwythineb. Parkhurst a ddywed,—"Nid yw yn anmhriodol i ni feddwl i'r Cristionogion fenthyca eu darluniau o'r diafol ar lun gafr, a chynffon, a chyrn, a thraed fforchog iddynt, oddiwrth arddangosiadau paganaidd o '*Pan* y Dychrynadwy.'" Dygwydda y gair "cythraul" yn lled aml yn y Testament Newydd. Nid yw y cyfieithwyr wedi gwneyd ond y peth nesaf i ddim o wahaniaeth rhwng y gair "diafol" a'r gair "cythraul," neu rhwng *diabolos* a *daimon* neu *demon*,—yn golygu yspryd drwg, natur ddrwg, duw cythreulig, ac hanner duwiau, &c. Cyfleuodd i feddwl y Groegiaid y meddylddrych neu y syniad am ysprydion ymadawedig dynolryw wedi eu dyrchafu i sefyllfa neu naturiaeth y duwiau, &c. Yr oedd yr Iuddewon hefyd yn gyffredinol yn coleddu y dybiaeth ofergoelus yma oddiwrth draddodiadau y Groegiaid a'r Lladiniaid, a chyfrifent bron pob math o glefydau neu anhwylderau meddyliol neu gorfforol fel canlyniad neu effaith un á chythraul ganddo. Yr oedd y traddodiadau a'r chwedlau yma yn lled gyffredin yn mhlith yr Iuddewon yn amser ein Hiachawdwr, ac yn cael eu credu yn ddiamheu gan lawer, fel yn ein hamser ni. Er fod ein Harglwydd, ar rai prydiau, fel pe buasai yn cydymffurfio á hwy yn eu traddodiadau, heb roddi un pwys ar hyny, etto nid oedd hyny yn ei wneuthur ef yn euog o honynt. Er enghraifft, yn allanol neu yn arwynebol, yr oedd yn cydnabod duw y

Philistiaid yn y geiriau hyn,—"Yr ydych chwi yn dweyd mai trwy Beelzebub yr wyf yn bwrw allan gythreuliaid." Meddwl y gair Beelzebub yw "duw y gwybed," duw Philistaid Ekron (2 Bren. i. 6). Dywed Parkhurst,—"Pa mor ddyeithr bynag y gall addoli y fath dduw ymddangos, y mae gyda ni enghreifftiau rhesymol o eilun-addoliaeth cyffelyb yn mhlith yr *Hottentots* y dydd heddyw. Darfu i'r Iuddewon yn amser ein Harglwydd gyfnewid yr enw i Beelzebul, hyny yw, arglwydd y llaid neu y dom.

Gwelwn fod y "cythreuliaid" y sonir am danynt yn y Beibl yn wahanol i'r "bodau ysprydol" y credir ynddynt yn gyffredin y dyddiau hyn. Y cythreuliaid a aberthwyd iddynt gan Israel gynt ydoedd *delwau* y paganiaid, wedi eu gwneuthur o goed a cherrig. At hyn y cyfeiria yr Apostol Paul yn 1 Cor. x. 20, 21,—"Ond y pethau y mae y Cenedloedd yn eu haberthu, i gythreuliaid y maent yn eu haberthu, ac nid i Dduw. Ni fynwn i chwi fod yn gyfranogion â'r cythreuliaid. Ni ellwch yfed o phiol yr Arglwydd a phiol y cythreuliaid. Ni ellwch fod yn gyfranogion o fwrdd yr Arglwydd a bwrdd y cythreuliaid." Amlwg yw fod yr Apostol yn cyfeirio at aberthau y Cenedloedd, sef "aberthau i gythreuliaid," sef delwau ac eilunod o "goed a cherrig," oblegyd dywed yn adnod 19eg,—"Beth gan hyny yr ydwyf yn ei ddywedyd? Bod yr *eilun* yn *ddim*, neu yr hyn a aberthwyd i eilun yn *ddim*." Dywedir fod yr Iesu yn "bwrw allan gythreuliaid:" y meddwl yw, fod yr Iesu yn eu hiachau hwynt. "Yna y dygwyd ato un cythreulig *dall* a *mud*, ac efe a'i *hiachaodd ef*, fel y *gwelodd* ac y *llefarodd* y *dall* a'r *mud*." Mae pechod yn cael ei ddynsodi neu ei bersonoli yn y Beibl yn aml iawn. "Mae efe yn *was* i bechod" (Ioan viii. 34). "O'ch *tad* diafol yr ydych." Mae cyfoeth yn cael ei bersonoli. "Ni ddichon neb wasanaethu *dau arglwydd*. . . . Ni ellwch wasanaethu Duw a mammon," (Mat. vi. 24). Mae doethineb yn cael ei bersonoli. "Gwell yw ei marsiandiaeth *hi* nâ marsiandiaeth o arian," (Diar. iii. 14, 15). Mae yr Ysbryd Glân yn cael ei bersonoli. "Ond pan ddel *efe*, sef ysbryd y gwirionedd," (Ioan xvi. 13). Mae y gwynt yn cael ei bersonoli. "Efe a *geryddodd* y gwynt." Mae y tueddiadau cnawdol a llygredig yn ein natur yn cael eu personoli, wrth gael eu galw "yr hen ddyn." "Gan ddarfod i chwi ddiosg yr hen ddyn yn nghyd â'i weithredoedd," (Col. iii. 9). Mae y duedd neu yr anian newydd sydd yn y Cristion, trwy ddylanwad y gair ar y meddwl, yn cael ei alw "y dyn newydd, yr hwn a grewyd yn ol Duw mewn cyfiawnder a gwir santeiddrwydd," (Eph. xi. 2, 3).

B. Bennett.

Y LLYFR EMYNAU NEWYDD.

Gwell hwyr nâ hwyrach. Gwell y dyn a ddelo rywbryd nâ'r un na ddelo byth. Pan yn ysgrifenu ein nodyn ar y pwnc uchod yn rhifyn Ionawr, yr oeddym yn mhell o gartref, ond etto yr oeddym yn gobeithio

gallu gwneuthur yr ychydig sylwadau addawedig. Mae amryw bethau wedi bod yn achosi y gohiriad nad yw o bwys eu crybwyll ar hyn o bryd. O bossibl nad yw y gohiriad wedi bod yn ddrwg i gyd, gan fod yn amlwg fod y ddadl wedi myned yn boeth iawn, ac arwyddion yn cael eu dangos fod teimlad yn gyflym yn cymmeryd lle rheswm. Mae rhywbeth yn rhyfedd iawn nas gellir byth ymresymu yn dawel ac yn frawdol ar bwnc a fyddo mewn dadl, bydded y pwnc yn bwysig neu ynte yn ddibwys. Y peth mawr mewn dadleuon fynychaf yw cario, ac nid cael gafael yn y gwir; ac i hyny wrth gwrs rhaid haeru yn lle ymresymu, rhaid camddarlunio a dibrisio ymresymiadau gwrthwynebol, a deg i un na bydd rhaid cyn terfynu gwneuthur ymosodiadau personol, a darlunio'r gwrthwynebydd fel pob peth sydd ddrwg, fel creadur didalent a chwbl ddiegwyddor. Annghofir mai y morthwyl oer sydd yn dwyn yr haiarn i'r ffurf y byddo'r gof yn ewyllysio, mai y dadleuwr tawel, digyffro sydd debycaf o fod a rheswm o'i du, ac mai peth bron anmhossibl yw gweled ac adnabod y gwir trwy fwg ymadroddion digllawn. Paham na ellir tynu gwahaniaeth rhwng personau ac egwyddorion, a gwrthdroi yr egwyddorion heb enllibo a phardduo y personau? Ond felly mae yn bod yn wastad, os bydd dau ddyn yn annghytuno ar bwnc, ac yn myned i ddadl yn ei gylch, ni waeth beth fyddo—pe byddai ond yr amser y cymmer gwybedyn i wincio, neu y rheswm pam y mae ci yn troi ei ben amgylch ogylch ar ol ei gynffon cyn myned i orwedd,—braidd yn ddieithriad ceir gweled y ddadl bob yn ychydig yn myned yn boeth, a chyn hir, os ceir chwareu teg, yn cyrhaedd y *boiling point*, 212°. Ofer dysgwyl am ragor o adeiladaeth, mae'r *evaporation* bellach yn rhwystro rhagor o gynnydd ar y gwres. Ffarwel i bob goleuni mwy.

Yr ydym wedi gweled llawer o ddadleu o bryd i bryd, ac wedi darllen am ragor. Mae'n amheus genym faint o ddaioni sydd wedi deilliaw erioed oddiwrth ddadleuon wedi cyrhaedd y *boiling point*. Gall fod peth wedi ei gael cyn hyny. Cariodd Dr. Price a Dr. Priestley eu dadl yn y blaen gynt heb golli llywodraeth ar eu teimladau, ac yr oeddynt ill dau wedi newid eu barn cyn terfynu, ac ill dau i'r graddau hyny yn gallach ac felly yn well nâ phan ddechreuasant y ddadl, a mwy fyth, ill dau yn teimlo yn fwy brawdol a mwy caruaidd wrth derfynu nag wrth ddechreu. Mae'n syndod na allai Undodiaid bob amser drin pob pwnc yn dawel a rhesymol. Proffesant ryddid meddwl, barn, a llafar; a dylent, yn ol y broffes hono, ganiatau i eraill y rhyddid a hawliant iddynt eu hunain, a'i ganiatau yn foneddigaidd a chyda theimlad da. Os ydym yn gwahaniaethu, gadewch i ni wahaniaethu heb gamddarlunio ein gilydd, a phriodoli amcanion drwg i'n gilydd. Ceisiwn gofio nad ydym ni yn anffaeledigion, ac y gall ein gwrthwynebwyr fod yn iawn, ac y gallant yn sicr fod mor onest yn eu daliadau á ninau. Cofiwn gynghor Paul, a chadwn undeb yr yspryd yn nghwlwm tangnefedd.

Er gwybod tuedd a pherygl dadleuon yn gyffredinol, nid oedd genym y breuddwyd lleiaf pan yn cyhoeddi llythyr J. J. yn rhifyn Medi, 1874, y buasai hyny yn arwain i ddadl annymunol; nac yn sicr

y buasai yn peryglu rhagolygon y llyfr emynau newydd, trwy rwygo i fyny ein henwad i hanner dwsin o wahanol bleidiau. Yr oeddym yn meddwl y gellid trin pwne felly yn dawel ac yn rhesymol, ac yr oeddym yn dysgwyl y naill ochr i ddarllen a phwyso ymresymiadau y llall, ac y buasent felly, trwy ymresymu yn dawel, yn dyfod i ryw derfyniad *practical*. Ond nid oedd y naill ochr yn gallu gweled rhesyman gan y llall o gwbl, ac felly ofer ydoedd dysgwyl iddynt ddyfod i un cytundeb, ac ofer ydoedd gwastraffu colotnau yr Ymofynydd i barhau dadl na allesid dysgwyl dim lles oddiwrthi.

Y pwne cyn iddo ymddangos ar dudalenau yr Ymofynydd oedd, fod arnom eisiau Llyfr Emynau Newydd, a'r teimlad unfrydol, mor bell ag y gwyddom ni, oedd, fod ei eisiau yn dost. Mae'r eisiau heb ei gyflenwi etto, ac o bossibl ei fod yn mhellach yn awr nag yr ymddangosai ar y cychwyn. Creded ein gohebwyr neu peidient, mae y *responsibility* o ddwyn allan lyfr o dipyn o faintioli mewn cylch mor gyfyngedig ag ydyw ein henwad ni, yn un pur drwm, ac nid ym yn dysgwyl y ceir neb yn hawdd i ymgymmeryd ag ef, heb ehwilio i mewn a gweled rhyw obaith i'r anturiaeth droi allan yn ffafriol. Hawdd yw gofyn pam na allwn ni wneuthur fel enwadau ereill; a dylai yr ateb, i bwy bynag a ymgymmero a'r gorchwyl, fod yn gwbl mor hawdd, neu bydd yn debyg o ymgymmeryd a gorchwyl a achosa fwy o golled a thrafferth iddo nag y mae erioed wedi feddwl. Mae'n haws dweyd arian na gwneyd arian, yn haws eu dysgwyl na'u gweled, yn haws cyfrif ar bocedi pobl ereill na chael gyda phobl ereill deimlo yn eu pocedi eu hunain. Nid yw ein pobl ni feallai yn waeth na phobl ereill (mae rhai haelionus iawn yn eu plith), ond y maent yn llai eu nifer. Ni wnaiff hanner dwsin o bump punnoedd neu ddwsin o punnoedd ddim cario gwaith mawr yn mhell. Nis gall deg wneuthur gwaith cant, nis gall cant wneuthur gwaith mil, na mil wneuthur gwaith deng mil. Mae llawer peth yn alluadwy i gylch helaeth nad yw yn alluadwy i gylch cyfyngedig. Pam mae y fath ddiluw o lyfrau yn cael eu troi allan yn barhaus o'r wasg Seisnig, pan nad oes ond ambell i lyfr yn awr ac yn y man yn cael eu troi allan o'r wasg Gymreig? Y pam yw fod helaethach maes gan y naill nag sydd gan y llall.

Ond i beidio ymhelaethu, dywedwn wrth derfynu yn bresenol, os oes rhywun yn barod i ymgymmeryd a'r *responsibility* o ddwyn allan y Llyfr Emynau Newydd *gyda Thonau*, fod golygydd yr Ymofynydd yn barod i roddi iddo bob cynnorthwy yn ei allu. Credwn, fodd bynag, fod y Llyfr Emynau yn angenrheidiol yn gyntaf, hyd y nod at hyny, oblegyd dewis Tonau i ateb yr Emynau fyddir, ac nid yr Emynau i ateb y Tonau. Mewn rhifyn dyfodol, yr ydym yn gobeithio cael gwneuthur rhai sylwadau pellach.

Y Glass.—"Nid oes un foneddiges o ffasiwn byth yn myned i'w gwely heb yn gyntaf edrych yn ei *glass*." "Ac nid oes yr un boneddwr o ffasiwn byth yn myned i'r gwely heb yn gyntaf yfed o'r eiddo yntau," ebe boneddiges yn ateb.

THOMAS STEPHENS.

Yn y rhifyn blaenorol rhoddasom ychydig fanylion am dymhor boreu bywyd Mr. Stephens, a chrynhoad byr o helyntion ei yrfa fel llenor Cymreig. Mae y sylwadau canlynol ar agweddau ereill ei gymmeriad wedi eu dyfynu o bregeth y Parch. N. R. Williams, yr hwn a gafodd y fraint o fod yn gyfaill agos iddo am yr yspaid o bymtheg mlynedd. Nid oedd Mr. Stephens yn ddyn o alluoedd cyffredin; a gwnaeth ddefnydd ffyddlon o'r galluoedd hyny tra y caniataodd ei iechyd. Trwy fyfyrdod caled yr oedd wedi cyrhaedd swm mawr o wybodaeth gyffredinol ag oedd o gymhorth mawr iddo wrth ddwyn o flaen y byd hanes llenyddiaeth ei wlad enedigol. Yr oedd yn caru ei wlad, ac yn wladgarwr o'r iawn ryw; ond nid oedd er hyny yn ddall i'w gwendidau—rhinwedd ag sydd yn rhy brin yn mhlith llawer o wladgarwyr proffesedig yr oes bresenol. Yn yr olwg yma yr oedd yn wr cyfiawn ac uniawn yn ei genedlaeth; ond er ei fod wedi cyssegru llawer o'i amser i wrteithio hanes a llenyddiaeth ei wlad ei hun, etto yr oedd wedi cyrhaedd adnabyddiaeth helaeth o gynnyrchion llenyddol Lloegr. Yr wyf yn sicr fod llawer yma allant fy nghadarnhau pan wyf yn dweyd na chyfarfyddais â neb erioed allasai roi hysbysrwydd mwy cywir ar unrhyw bwnc cysylltiedig â llenyddiaeth Saesneg nâ Mr. Stephens, er y byddai yn rhoddi ei farn bob amser gyda'r gwyleidd-dra ag oedd yn nodweddiadol o hono, etto yn anaml, os byth yr oedd yn troi allan yn annghywir. Yñ y Newyddiaduron mae yn cael ei osod lawr fel Rhyddfrydwr mewn gwleidyddiaeth; mae hyn yn ddiamheu yn wir, er nad oedd mewn un modd yn eithafol yn ei gredo boliticaidd. Yr oedd yn hollol gyfarwydd â phynciau y dydd yn y cyfeiriad yma. Nis gellir dweyd ei fod yn wleidiadwr gor-selog; ac nid oedd hefyd yn un o'r rhai ydynt yn dymuno cuddio eu hargyhoeddiadau politicaidd o dan lestr, ond byddai bob amser yn cyhoeddi ei farn yn wrol, er y dygwyddai fod yn anmhoblogaidd, pan y byddai galwad arno. Gallasem ddysgwyl fod Mr. Stephens wedi cyfyngu ei sylw yn gyfangwbl i lenyddiaeth a hanes, ac nad oedd ei fyfyrdodau yn ymestyn allan tuhwnt i'r cyffiniau hyny; ond mae'n ffaith ei fod yn dduwinydd medrus, ac yn feirniad ysgrythyrol craffus. Yr wyf wedi synu lawer gwaith wrth weled mor gyflawn yr oedd wedi meistroli gwyddor duwinyddiaeth. Byddai yn anhawdd cyfarfod âg un oedd wedi myfyrio ei Feibl gyda mwy o ddiwydrwydd a manylwch nâ Mr. Stephens; ac mae'n fater i'w ryfeddu sut y cyrhaeddodd ei holl wybodaeth feirniadol o'r Beibl, ac amrywiol ddarlleniadau ei destynau dadleuol, pan yr ystyriwn ni y parotoad prin a gafodd ar gyfer y fath efrydiaeth, oblegyd yr ydym wedi gweled ei fod wedi gadael yr ysgol, ac wedi dechreu brwydr bywyd yn ieuanc iawn. Yn ei ymofyniad am wirionedd crefyddol yr oedd yn wirioneddol uniawn ac onest; ac er fod llawer yma heno ydynt wedi dyfod i gasgliadau hollol wrthwynebol mewn materion perthynol i grefydd, etto yr wyf yn sicr y cytuna pawb ag oedd yn ei adnabod â mi, pan y dywedaf, na ddarfu iddo gofleidio ei olygiadau crefyddol heb lawer o feddwl ac ystyriaeth ddifrifol. Gyda dymuniad cryf i ddyfod o hyd i'r gwirionedd, daeth i fod yn Undodwr gonest proffesedig. Gyda ei holl chwaeth at lenyddiaeth ac arferion myfyrgar, etto, nid oedd yn arwain bywyd mynachaidd, hollol o olwg y cyhoedd, er ei fod o duedd hytrach neillduedig, etto yr oedd yn ddefnyddiol, ac yr oedd bob amser yn barod i gyfranu i ereill ei wybodaeth ddwfn ac eang yn yr holl bynciau ag oedd yn adnabyddus â hwy. Nid yw yn debyg yr annghofir yn hawdd ei ymdrechion diflin i sefydlu llyfrgell a darllenfa gyhoeddus yn Merthyr. Yr oedd y llyfrgell yn sefydliad anwyl iawn i'w galon; ac mae ei llwyddiant gan mwyaf i'w

briodoli i lafur Mr. Stephens, gyda chymhorth ereill a ddarfu ei gefnogi yn ei ymdrech i ddwyn tu fewn i gyrhaedd y bobl weithiau yr awduron goreu mewn llenyddiaeth, gwyddor, a chelfyddyd. "Mewn amser, ac allan o amser," fe osododd ef ei holl alluoedd ar waith i hyrwyddo ei llwyddiant a'i defnyddioldeb; ac mae'n beth boddhaol iawn i deimlo iddo fyw i'w gweled yn llwyddo mor bell, o leiaf, ag i fod yn alluog i gynnal ei hun, ac i fod yn fraint werthfawr i lawer nad oes ganddynt fodd i feddu eu hunain lawer o lyfrau agy chwenychent ddarllen.

Yr oedd Mr. Stephens yn wir gyfaill y dosparth gweithiol; bu yn ddiwyd yn ei ymdrechion er eu diwygio, eu dyrchafu, a gwellhau eu cyflwr; a thra yn cydnabod eu rhinweddau, nid oedd er poblogrwydd yn ymostwng i feithrin a chefnogi eu gwendidau a'u rhagfarnau. Pan yr oedd bai arnynt, dywedai hyny wrthynt yn garedig, ac yn wir ystyr eu cyfaill goreu. Mae un engraifft yn ddigon i ddangos caredigrwydd ei galon, a'r dyddordeb dwfn a deimlai yn hawddfyd y dosparth gweithiol. Yn agos i bedair blynedd ar ddeg yn ol cafodd y gymmydogaeth yma ei chyffroi gan y newydd cyffrous fod tanchwa ofnadwy wedi cymmeryd lle yn y *Gethin Pit*, yn agos i'r dref hon. Trwy y ddamwain ddychryllyd cafodd nifer luosog o wragedd eu hamddifadu o'u hunig gynnaliaeth mewn bywyd. Cyffrowyd cydymdeimlad yr holl ardal at y trueiniaid digymhorth yma. Galwyd cyfarfod cyhoeddus yn y man, enwyd pwyllgor, ffurfiwyd *relief fund*, a daeth cymhorth haelionus yn fuan o bell ac agos. Yn y cyfarfod cyhoeddus, pryd yr etholwyd y pwyllgor, er mwyn cario y gwaith yn mlaen yn llwyddianus, yr oedd eisieu Ysgrifenydd; ceisiwyd gan Mr. Stephens ymgymmeryd â'r swydd, a derbyniodd hi yn ewyllysgar. Mae rhai o honom yn gwybod mor alluog y cyflawnodd y gwaith yma o "lafurus gariad," yr hwn a gymmerodd ran fawr o'i amser, hyd nes iddo gael pethau i drefn briodol. Cymmerodd mewn llaw y gwaith da pan oedd yn mhell o fod mewn iechyd, a pharhaodd i gyfranu *relief* o'r *fund* hyd y diwedd, a gwnaeth hyny yn fynych pan y dylasai fod yn ei wely.

Mewn perthynas i'r golled, ydym ni fel cynnulleidfa yn sicr o ddyoddef ar ymadawiad aelod mor ddefnyddiol, nis gallaf gael geiriau i siarad mor deimladwy ag y dymunwn. Mae y golled yn ymddangos yn bresenol yn anadferadwy. Welwn ni ddim mwy o'i wyneb caredig, a'i brydweddau meddylgar o Sul i Sul; mae ef wedi ei gymmeryd oddiwrthym yn nghanol ei ddefnyddioldeb, ac ni chawn y fraint mwyach o'i gynghor, na gair o gefnogaeth oddiwrtho, i'n sirioli yn ein gwaith. Nis gallwn annghofio ei ymdrechion a'i lafur yn yr ysgol Sul; ac yr wyf yn teimlo fy mod yn anerch rhai a allant edrych yn ol ar yr amser sydd wedi myned heibio, a chofio am yr addysg, y cynghorion, a'r cymhorth a dderbynient oddiwrth Mr. Stephens yn ein hysgol Sul.

Gan ei fod yn fyfyriwr caled nis gellir dweyd fod Mr. Stephens yn gofalu llawer am swynion cymdeithas. Yr oedd yn rhy hoff o neilluedd ei fyfyrgell, a charai gymdeithas a doethion yr oesau, yn hytrach nag ymgymmysgu â'i gyfoedion; ond mae rhai yma heno a allant siarad gyda mi am Mr. Stephens fel cyfaill didwyll, a chydymaith cymdeithasol. Flynyddau yn ol, cyn i'w glefyd ddechreu ymosod arno, pan oedd ei feddwl yn ddysglaer a chlir, a phan oedd gwobrau flynyddoedd o fyfyrdod a dyfal-barhad yn cael eu cafodi ar ei ben; arferai Mr. Stephens i siglo ymaith yr yspryd neilluedig sydd yn nodweddiadau personau o arferion myfyrgar ac yna byddai goludoedd ei feddwl yn llifo allan yn rhydd mewn ffrydiau o ddoethineb er addysg ac adeiladaeth y rhai oeddent mor ffodus a chael mwynhau ei gymdeithas. Mae rhai sydd yma yn cofio am lawer awr siriol a dedwydd wedi ei treulio

yn ei gwmpeini ; ac fe erys ei arabedd parod, ei resymeg eglur, a'i annogaethau cyfeillgar, yn hir yn nghof y rhai oeddent mewn agos gyssylltiadau âg ef.

I. C.

BYWYD DYNOL.

Un o'r pethau mwyaf cywrain yn hanes dyn ydyw'r ffaith hon, fod rhan fawr o ddynion yn treulio eu bywyd mewn gwneuthur parotoadau i fyw. Nid ydym byth yn gallu sylweddoli'r ffaith mor gyflym mae amser yn ffoi ymaith. Yn lle gwneuthur yr hyn a allem fwynhau yn awr, yr ydym yn gwneuthur parotoadau i wneuthur rhywbeth arall yn y dyfodol. Yr ydym yn prynu llyfrau, fe allai, gan fwriadu myned i mewn a mwynhau eu trysorau yn oriau hamddenol blynyddoedd y dyfodol. Fe allai ein bod yn tori areithiau a darlithiau allan o'r newyddiaduron, ac yn meddwl nad oes genym ni ddim amser i'w darllen heddyw, ond y cawn amser yn—y dyfodol. Yr ydym yn cynllunio i ni ein hunain gartref gyssurus mewn man hyfryd yn y wlad, lle y treuliwn ein blynyddoedd diweddaf; ac yn y cyfamser, gan ymgyssuro yn y rhagolygon hyfryd, yr ydym yn gweithio hyd ddiwedd y bennod—yn gweithio gwaith caled, gwaith diangen yn fynych, a gwaith annymunol fe allai hefyd.

"Man never is but always to be blest,"

meddai'r bardd, ac y mae wedi taro ar wirionedd mewn cyssylltiad â hanes bywyd rhifedi mawr o ddynion. Ymddygwn mewn gwirionedd fel pe byddem yn teimlo yn sicr o anfarwoldeb ar y ddaear yma. Dywedwn wrthym ein hunain, mynwn hyn a hyn o dda'r byd wedi ei osod i fyny am hyn a hyn o flynyddoedd—ac awn yn mlaen yn ychwanegu, yn ychwanegu o hyd, nes yw y terfyn o'r diwedd yn dod, a ninau yn myned oddiar y chwareufwrdd, gan adael ar ein hol yr ystorfeydd a gasglasom gyda chymmaint o drafferth. Yr ydym yn meddwl cael mwy o amser yn mhen ychydig i dreulio gyda'n cyfeillion ; ac felly yr ydym yn caniatau i'r rhwymau sydd yn ein cyssylltu â'n cyfeillion i fyned yn wanach wanach trwy ein hesgeulusdod a'n diofalwch. Denai bywyd yn fwy cyfoethog pe gallem fyw mwy yn y presenol a llai yn y dyfodol—pe gallem gofio na chawn ni byth fwy o amser nag sydd genym heddyw—ac y byddwn yn debyg wrth oedi cyflawni unrhyw beth eleni, ei adael heb ei gyflawni am byth.

SYNWYR CYFFREDIN.

Mae'n eithaf gwir y dywediad fod swllt o dreuliau uwch law'r incwm yn dlodi, a bod gweddill o swllt o'r incwm uwch law'r treuliau yn gyfoeth. Nid yw gallu ffarmwyr ymarferol i feistroli y pwnc mawr hwn ddim yn dibynu cymmaint ar ba beth a wyddant yn nghylch eu galwedigaeth, ag ar eu gallu i osod mewn ymarferiad priodol yr hyn maent yn wybod. Mae llwyddiant mewn unrhyw alwed-

igaeth yn dibynu yn fawr ar y cymhwysiad priodol yr *administration*. Mae'r gallu i gymhwyso yn dibynu ar y gallu, y gyneddf, neu y briodoledd a elwir synwyr cyffredin—*common sense*, am yr hwn y mae pawb yn siarad yn dda, ond am yr hwn ni chawn ni ond ychydig yn gwybod llawer am dano. Yr ydym yn casglu ei bresenoldeb, neu ei absenoldeb, oddi wrth yr hyn ydyw bywyd dyn wedi bod. Anturiwn ar eglurhad neu esboniad o hono, nid yn gymmaint gyda bwriad i wneuthur ei ystyr yn eglur, ag i roddi iddo le uwch yn ein meddyliau.

Synwyr cyffredin, gradd ydyw, gradd uchel, mewn gair, y rædd uwchaf o ddoethineb dynol wedi ei gyflen at bethau ymarferol. Nid dysg ydyw, nid gwybodaeth, y gallu ydyw i gyflen yr hyn a wyddom at yr hyn a wnawn; a bod pob peth arall yn gyfartal, y *practical farmer* fyddo yn gwybod mwyaf fydd yn debyg o wneuthur yn oreu; ond, a bod pethau eraill yn anghyfartal, gall yr hwn sydd ddoeth mewn gweinyddiaeth ragori ar ddyn o ddysg helaethach neu wybodaeth amgenach; etto na chaniataer i'r awgrymiad hwn arwain neb i osod llai o werth ar ddysgeidiaeth. Mae gwrtaith o bob math yn rhoddi i ni y gallu i werthfawrogi doethineb, a chyfleusdra hefyd i wneuthur defnydd o honi.

Gwnaeth Washington Irving unwaith gyfeirio at ddyn o ffugfawredd mwy nâ'r cyffredin fel "dyn mawr, ac yn ei dyb ei hunan, dyn o bwys mawr. Pan mae yn myned tua'r gorllewin mae'n meddwl fod y dwyrain yn tipio i fyny."

Y Ffelwm.—Am y deng mlynedd diweddaf, meddai un, yr wyf wedi trin y ffelwm â dwfr poeth, a phob tro yn berffaith lwyddiannus. Heb ddim tori, dim blistro, na dim arall, ond gwthio y bys, y llaw, neu y fraich os bydd angen, mewn dwfr mor boeth ag y gellir oddef, hyd nes byddo'r poen wedi myned ymaith, a chalon y ffelwm wedi ei ryddhau oddiwrth yr asgwrn. Os bydd hoelen rydlyd wedi achosi clwyf, gellir ei drin yr un modd.

Treuliau Bychain.—Edrychwch yn fwyaf yn nghyfeiriad eich treuliau. Ni waeth beth fyddo yn dyfod i mewn, os bydd mwy yn myned allan chwi a fyddwch bob amser yn llwm. Y gwaith mawr yw, nid i wneuthur arian, ond i'w cadw; mae treuliau bychain, fel llygod bychain mewn ysgubor, yn gwneuthur difrod mawr. Bob yn ffewyn yr â'r pen yn ffoel, bob yn welltyn yr â'r tô oddiar y bwth, a phob yn ddyferyn y daw'r gwlaw i'r ystafell. Yn fuan iawn aiff y faril yn wag er i'r tap golli ond un dyferyn ar y tro.

Rhywogaeth Wyau.—Wrth gwrs mae'n perthyn i wyau rhywogaeth. Dyma'r rheolau i gael allan y ffordd i gael rhywogaeth y cywion o'r fath y dymunir:—Yr wyau bychain crynion (round) ydyw yr wyau menywaidd, a'r wyau meinion hirion ydyw y rhai gwrywaidd. Deil y rheol hon, meddir, gyda golwg ar hwyaid a gwyddau yr un modd. Felly, os ydych am godi gieir, dewisiwch yr wyau bychain crynion; os am godi ceiliogod, dewiswch yr wyau meinion hirion. Yn y modd hyn gallwch godi cywion o ba rywogaeth y byddwch yn dewis.

Goruchwyliaeth y Bais.—Yr oedd boneddwr dan yr oruchwyliaeth yma wedi penderfynu myned allan i swpera gyda pharti o gyfeillion, yn groes i ewyllys ei wraig. Yr oedd efe yn benderfynol yr elai, a hithau mor benderfynol â hyny na chawsai ddim myned. Nid aeth efe ddim. Gwelodd ei gyfeillion ei eisiau, ac er mwyn tipyn o ddifyrwch aethant i chwilio am dano i'w gartref; ac yno cawsant ef a'i wraig yn eistedd mewn pob o gadair ac yn cysgu yn drwm. Yr oedd efe wedi rhoddi pilsen iddi hi fel y gallasai slipio i ffwrdd, a hithau wedi rhoddi un iddo yntau i'w rwystro.

Manion.

CALON mam yw ysgoldy'r plentyn.

MAE *rhoi* diolch yn dda, ond y mae *byw* diolch yn well.

BYDDWCH byw nid yn gymmaint ar gyssuron Duw, ag ar Dduw'r cyssuron.

ANFFAWD mwyaf bywyd yw henaint heb yr adgof am rinwedd.

PROFEDIGAETHAU bywyd ydyw'r *tests* i gael allan pa faint o aur sydd ynom.

MOESOLDEB yw crefydd mewn arferiad, crefydd yw moesoldeb mewn egwyddor.

MAE'R fantell sydd yn cuddio gwyneb y dyfodiant wedi ei gweu gan law trugaredd.

DICHON i arferiad arwain i lawer o gyfeiliornadau, ond nis gall gyfiawnhau yr un.

NID yw edifeirwch gonest byth yn rhy ddiweddar, ond y mae edifeirwch diweddar yn fynych yn anonest.

DINIWEIDRWYDD sydd flodeuyn a wywa pan gyffyrddir ag ef, ac ni flagura etto serch ei ddyfrhau â dagrau.

MAE athraw yr ysgol yn sefyll wrth y ffynnon, ac yn rhoddi cyfeiriad i afon bywyd.

MAE gair tyner wedi ei ollwng i ffynnon y galon ddynol, bron yn sicr o godi'r dwfr i'r llygaid.

PEIDIWCH croesi pont cyn dyfod ati. Yr ydym yn fwy nâ dyblu ein gofidiau trwy redeg i gwrdd â nhwy.

GWIR ddoethineb yw gwybod beth sydd yn fwyaf yn werth ei wybod, a gwneuthur yr hyn sydd yn fwyaf yn werth ei wneuthur.

MAE cynghor fel eira; po dawelaf y syrthia, a pho hwyaf y triga, dyfna i gyd y sudda i'r meddwl.

Os ydych wedi eich temtio i ddrwg, ffowch oddiwrtho: nid syrthio i'r dwfr sydd yn boddi, ond gorwedd ynddo.

DEDWYDD yw'r teuluoedd lle mae llywodraeth y rhieni yn deyrnasiad serch, ac ufudd-dod plant yn ymostyngiad cariad.

YR ydym yn byw mewn gweithredoedd, nid blynyddoedd; mewn meddyliau, nid anadliadau; mewn teimladau, nid rhifnodau ar y deial. Dylem gyfrif amser trwy guriadau'r galon. Hwnw sy'n byw hwyaf, sy'n meddwl fwyaf, sy'n teimlo'n fwyaf *noble*, ac yn gweithredu'n oreu.

Os oes un amser yn fwy nâ'i gilydd pan y dylai menyw gael ei gadael yn hollol wrthi ei hun, yr amser hwnw ydyw pan y mae *line* o ddillad glân wedi dyfod i lawr i'r mwd.

MAE dynion doeth, pan am gael cynghor, yn myned at feddyg; ond mae ffyliaid yn myned at gwac,—ac mae'r annghyfartaledd mawr rhwng y ddau ddospartth yn egluro paham y mae cymmaint o gwacyddion yn gwneuthur eu ffortiwn, tra mae llawer meddyg gwybodus ar fin newynu.

CARIAD.—"Beth sydd yn peri fod pawb yn eich caru gymmaint?" meddai tad anwyl wrth ei ferch fach chwe' mlwydd oed, fel yr oedd yn ei chymmeryd i fyny ac yn ei chusanu. "Wn i yn y byd, dada," meddai y fechan felus, "os nad am fy mod i yn caru pawb."

Y TELPYN HALEN.—Mae'r telpyn halen yn toddi mewn basynaid o ddwfr. Mae'r halen wedi diflanu, ond y mae pob defnyn o ddwfr yn y basyn yn teimlo ei ddylanwad. Mae ein bywyd yn gyffelyb i'r telpyn halen hwnw. Yn raddol mae'n ymdoddi ymaith, ac mewn byr amser bydd wedi diflanu; ond cyrhaedda ei ddylanwad i'r awr bellaf yn y tragwyddoldeb i ddod.

CYMMERODD hen dduwinydd doeth bâr ieuanc oedd newydd briodi o'r naill du un tro, a dywedodd, "Yr wyf am roddi i chwi y cynghor hwn, fy mhlant,—peidiwch treio bod yn ddedwydd. Hogen swil ydyw dedwyddwch, ac os byddwch yn gyru ar ei hol, ni wnewch byth ei dal; ond ewch rhagoch yn dawel fach, gan wneuthur cich dyledswydd, a hi a ddaw atoch."

GAIR HEPWORTH.—Mae cryn gyffro wedi ei achosi trwy fod y Parch. G. H. Hepworth wedi gadael ein henwad. Ychydig yn ol dywedodd, "Mae holl ddylifiadau yr amser yn rhedeg yn ein cyfeiriad ni. Mae cwarter y bobl dda yn New York, pa un a wyddant hwy hyny ai na wyddant, yn Undodiaid mewn gwirionedd. Yr oll a ofynwn yw, ar i ddyn gael hyspysrwydd iddo ei hunan yn nghylch ein sefyllfa. Po mwyaf y meddylia am y mater, agosaf i gyd y daw efe atom ni."

DDIM YN SYCH.—Darfu i arlunydd yn ddiweddar baentio llun dyn, hynod am ei hoffder o'r cwpan, a gwahodd rhai o gyfeillion y dyn ddyfod i'w weled. A phan oedd un o honynt ag oedd yn fyr ei olwg, yn neshau yn rhy agos at y darlun, gwaeddodd yr arlunydd allan mewn braw, "Peidiwch cyffwrdd ag ef; 'dyw e' ddim yn sych!" "Dim dyben edrych arno, ynte," oedd yr ateb, "canys nis gall mai fy nghyfaill yw, mae hwnw'n sych o hyd."

Gohebiaethau.

TYSTEB Y PROFFESWR EVANS, CAERFYRDDIN.

At Olygydd yr YMOFYNYDD.

Syr —Gan fod cymmaint o waith ar ysgwyddau ein gweinidogion, yr ydys o'r farn y byddai yn annoeth i ofyn i un o honynt hwy i fod yn Drysorydd at y dysteb uchod, er, ar yr un pryd, yr hoffem hyny. Am hyn, yr wyf (yn ol cynghor amryw yma) wedi ymgymmeryd â'r gorchwyl i fod yn Drysorydd, canys yr wyf o'r un farn ag un o'n gweinidogion poblogaidd yn Ngheredigion, "bod Mr. Evans yn deilwng o gydnabyddiaeth am ei ddiwydrwydd a'i ymroad yn ein plith."

Y mae yn wir mai peth dyeithr i'n henwad yw *tystebau*; na fydded i'r rheswm hyn rwystro neb i gyfranu. Mae gweinidogion yn mhlith ein brodyr Trindodaidd yn cael tysteb pe baent ond *ysgrifenu* traethawd bychan ar "Wraig Lot," neu destyn cyffelyb.

Yn awr, Undodiaid Cymru, na fyddwn *yn ol* o ddangos parch i un o'n hen weinidogion, yr hwn am bum mlynedd a fu yn Olygydd yr YMOFYNYDD, cyn iddo ymadael â Chymru; "tra mae y person yn fyw, ac nid wedi iddo farw mae dangos parch iddo."

Yr ydym am i bawb sydd yn meddwl tanysgrifio o swllt i fyny, anfon eu henwau a'u *address* yn gyflawn i mi, a hyny mor fuan ag sydd bosibl, canys yr y'm yn meddwl cau y dysteb tua diwedd mis Mai. Yr y'm yn gobeithio y gwna rhai yr un peth yn St. Clears, Onenfawr, a manau ereill, ag y mae "R. R." yn meddwl gwneyd, sef "cymmeryd yr hyfdra o gasglu at y dysteb yn Rhydyparo;" ac fel yr wyf finau yn meddwl gwneuthur yn Nghaerfyrddin.

Gan ddymuno pob llwyddiant i'r dysteb, a chan obeithio y deuwn fel Undodiaid Rhyddfrydol i'r maes am y tro cyntaf fel rhoddi tysteb.

Yr eiddoch yn gywir,

DANIEL JONES,
Compositor,
27, Hawk Villa,
Carmarthen.

O.Y.—Yr wyf wedi cael addewidion da iawn eisoes at y dysteb.

ENGLYN O OCHR TYNDALL.

Mr. Gol,—Yr oedd y diweddar Daniel Ddu o Geredigion yn gymmaint defnyddiolwr a'r Proffeswr Tyndall pan y cyfansoddodd yr englyn rhagorol isod,—englyn sydd yn werth ei drysori yn y cof gan holl ddarllenwyr yr YMOFYNYDD.—G. G.

Gwelir Di, Geli gwiwlan,—yn yr iâ,
Yn yr awel fwynlan,
Yn ngwellt, dwr, yn ngwyllt daran,
Cawad a mellt, ac ôd mân.

Gwinllan y Bardd.

Congl yr Holiedydd.

BEDDARGRAFF.—"Yma y gorwedd dwy famgu, gyda'u dwy wyres; dau wr, gyda'u dwy wraig; dau dad, gyda'u dwy ferch; dwy fam, gyda'u dau fab; dwy ferch ieuanc, gyda'u dwy fam; dwy chwaer, gyda'u dau frawd; ac etto nid oes yma ond chwech corff i gyd, oll wedi eu geni yn gyfreithlawn, ac oll yn dal eu perthynas â'u gilydd yn gyfreithlawn." Eglurhad o'r dirgelwch a rydd foddlonrwydd i—*Owen Tudor.*

RHANU'R CEFFYLAU.—Yr oedd Mohametaniad yn teimlo ei hun ar fin ymddatod. Yr oedd yn dad i dri o feibion, ac yr oedd ganddo ddau ar bymtheg o geffylau, y rhai a ddymunodd yn ei ewyllys gael eu rhanu rhyngddynt fel y canlyn:—I'r mab hynaf yr hanner, i'r ail un rhan o dair, ac i'r trydydd un rhan o naw. Ac fel na byddai ymrafael, cynghorodd hwy i ymweled â'i hen gyfaill y *dervish* (offeiriad Mohametaniaidd) os dygwyddai unrhyw anghydwelediad rhyngddynt. Yr oedd hwnw ac yntau wedi bod yn ffryndiau er yn blant, ac yr oedd wedi ei gael bob amser yn ddyn gonest a chywir. Gorfuwyd ymgynghori â'r *dervish*, yr hwn a ranodd y ceffylau i foddlonrwydd y tri. Sut y gwnaeth?—*Mentor.*

Priodasau.

Ar y 26 o Chwefror diweddaf, yn Nghapel y Cribyn, Ceredigion, gan y Parch. T. Thomas, Pantydefaid, (yn unol â dymuniad gweinidog y lle), James, unig fab Mr. Rees Evans, Gefeilau, Llandyssil, a Dinah, ail ferch Mr. John Jenkins, Rhydybenau, Ystrad.

Am fenyw'r ymofynodd—ein Iago,
Unigedd ni hoffodd;
A Dinah yw'r un a'i denodd,
A'i haraeth fwyn—mae'i wrth ei fodd.

I'r ddau anwyl boed arddunedd,—a phlant,
Yn hoff lu tirionwedd;
A gwenau y byd, hyfryd hedd,
Yn llawenu eu holl annedd.

D. T.

Mawrth 10, 1875, yn Capelygroes, gan y Parch. J. Davies, Alltyblaca, a cher bron y Cofrestrydd, Mr. Thomas Lloyd, Hafodwenog, a Miss Eleanor Jenkins, Rhyd-ddu, y ddau o blwyf Llanwenog, Ceredigion.

Iddynt deued yn hawddach,—ogoniant
A gwenau'r byd bellach;
A dylif bur i dolach,
I haid bert o Lwydiaid bach.

GWARNANT WILLIAMS.

Marwgofion.

Ionawr 21, Jennett Davies, gwraig John Davies, a merch Evan Richard Jenkins, Trecynon, Aberdar, yn 37 oed. Yr oeddynt wedi myned i America tua chwech mlynedd yn ol. Nid oedd ond newydd gyrhaedd gartref ar ol bod yn talu ymweliad a'i pherthynasau yn yr hen wlad, pan y bu farw ar enedigaeth plentyn, gan adael priod a phump o blant i alaru ei cholled. Bydded iddynt ddeall fod Duw yn goruwchlywodraethu ar bob peth, ac yn peri i'r cymylau tywyllion a'r rhai goleu i gydweithio allan i'r un amcan, sef, ein lles penaf yn y diwedd.—J. W.

Chwefror 1, Jane, anwyl wraig Capt. W. Stanley, o Lower Salem, Washington Co., Ohio, U.D., a merch W. Thomas, or un lle, ond gynt o Bontfaen, Cellan. Bu farw o'r ddarfodedigaeth ar ol deg mis o gystudd. Mae wedi gadael dau blentyn, bachgen yn saith, a merch yn dair oed.

Chwefror 19, yn nhŷ ei fam, Cardiff Road, Aberaman, Howell David, Plough Inn, wedi hir nychdod, yn 34 oed. Claddwyd ef yn *vault* y teulu, yn mynwent Eglwys plwyf Aberdâr, y Mawrth canlynol.

Chwefror 23, yn nhŷ ei mhab-yn-nghyfraith, Mr. John Morgan, Abernantygroes, Cwmbach, Mari, gweddw Rhys Shon Dafydd, Ffynongog, Cefnpennar, yn 79 oed. Claddwyd ein hen chwaer dawel a pharchus y Mawrth canlynol, yn yr un bedd a'i phriod, yn mynwent Eglwys plwyf Aberdar. Er fod yr hin yn arw iawn, daeth tyrfa luosog yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i'r bedd.—A. J. T.

Chwefror 24, yn 14 oed, bu farw Simon Davies, mab hynaf Samuel ac Elizabeth Davies, Rhiwsôn-ganol, Llanwenog, Ceredigion. Claddwyd ef dydd Sadwrn canlynol, yn mynwent Eglwys y plwyf. Pregethwyd gan y Parch. John Davies, Alltyblaca. Yr oedd yr ymadawedig yn un o dymer hynod addwyn, ac o dalent tra gobeithiol, a'i rodiad yn esampl i filoedd o ieuenctyd Cymru. Gorphwysed yn dawel hyd y dydd y caiff dderbyn o'r wobr addawedig.

'N ddiau rhy sâl oedd Rhiwsôn,—i dywys
Blodeuyn mor swyn-lon;
Lleshâd, ac ewyllys Iôn,
Oedd symmud o'n gwydd Simon.

Os buan 'nol ewrs bywyd,—yr hunodd
Ar haner ieuenctyd;
Mae sail gref i ddweyd hefyd,
O'i holl boen aeth i well byd.

GWARNANT WILLIAMS.

Chwefror 26, yn y Wig, ger Penbont-ar-Ogwr, yn 80 oed, Elizabeth, gweddw y diweddar John Harris, Mwntwn. Claddwyd hi ar y dydd cyntaf yn mis Mawrth, yn yr un bedd a'i phriod yn mynwent Hen-dy-Cwrdd y Wig, a gweinyddwyd ar yr aclysur i dorf luosog, gan y Parch. Titus Lloyd, gweinidog y lle. Nid oedd neb yn fwy parod nâ Mrs. Harris i wneyd cymmwynas i gymmydog.

Mawrth 2, yn 37 oed, David, mab Anne Davies, Caecerig, Llanwenog, Ceredigion. Claddwyd ef dydd Iau canlynol, yn mynwent Eglwys y plwyf, a phregethodd y Parch. J. Davies, Alltyblaca, ar yr ach-

lysur. Cafodd yr ymadawedig ddioddef y cystudd maith o 24ain o flynyddoedd. Bydded i'w fam alarus ymgysuro yn y gobaith fod ei hanwyl fab wedi croesi dros drothwy adfyd i dragwyddol ogoniant.—G. W.

Mawrth 6, Morgan, mab Mr. William Morgan, Brecon Arms, Penderyn, ar ol byr gystudd, yn 9 mlwydd oed. Dydd Mercher canlynol ymgasglodd lluaws yn nghyd i'w hebrwng i dŷ ei hîr gartref. Yn y tŷ pregethodd Mr. Evans, gweinidog y lle.

Harddoniaeth.

MARWOLAETH FY MRAWD.

Pennillion a gyfansoddais ar ol gweled yn y "Drych" am farwolaeth fy mrawd, Dd. Davies, Gelli-isaf, Aberdar, Cymru.

Ar foreu y nawfed o Dachwedd diweddaf,
Yn gynnar y codais yn fywiog a llon,
Pob peth yn arddangos dyfodiad y gauaf,
A minau heb ddysgwyl dim prudd-der i'm bron.

Yn Nghymru 'r pryd hwnw 'r oedd brawd mewn cyfyngder,
A minau mewn ardal bellenig yn byw,
Heb allu rhoi cymhorth o herwydd y pellder,
Ac yntau yn marw yn welw a gwyw.

Y madael â'i briod, a'i frodyr hawddgarol,
Wnaeth Dafydd yn sydyn, er hyny mewn hedd;
A'r newydd ymdaenodd i wledydd estronol,
Fod brawd i ni'n hunoyn mynwes y bedd.

Cyrhaeddodd y newydd o Gymru hyd yma,
A diau fe gollwyd y dagrau yn lli;
Yn mhellach yr aeth—hyd ororau Australia,
Er galar i frawd, a pherthynas i ni.

Ti Dafydd a flaenaist o fyd y trallodion
I ddedwydd drigfanau y seintiau i gyd;
Ac yno y byddi yn mhlith yr angylion
Yn canu yr anthem ni dderfydd, o hyd.

Ei wyddfa amgylcher o hyd âg amrywiaeth
O flodau teleidion—ardderchog eu gwedd;
A thithau bêr awel udgana beroriaeth
Gwynfanus, hiraethlon, am byth uwch ei fedd.

H. W. Davies.

Pittston, Pa., N. America.

YR EURAIDD DRAETH.

Merched.—Allan ar y môr yn hwylio,
Hwylio adref ydym ni;
Bechgyn.—Allan ar y môr yn hwylio,
Adref y tuhwnt i'r lli'.
Oll.—Buan chwyth pob 'stormydd heibio,
Yna cawn yn ddyogel lanio,
'R ydym ar y môr yn hwylio
Adref y tuhwnt i'r lli'.

Merched.—Y mae miloedd wedi cyrhaedd,
Draw ar ddysglaer draeth y ne';
Bechgyn.—Canlyn ar eu hol mae miloedd,
Etto i filoedd mwy mae lle.
Oll.—Buan chwyth, &c.

Merched.—Rhowch yr hwyliau i'r awelon
Er hwylysu'r llong yn mla'n;
Bechgyn.—Ac ymunwch bawb o galon
I roi nerth i'r ddwyfol gân.
Oll.—Buan chwyth, &c.

YR UCHEDYDD.

O'i isel nyth yn fâd genhadydd—fry
I deg fro wybrenydd,
Heb bruddhad ar doriad dydd,
Iach heda yr uchedydd.

Seiniau'r uchedydd swynawl—a hidla
Hyawdledd berorawl;
Ei dôn fyw sy'n dân o fawl,
Yn fedrus i'r Anfeidrawl.

L. Hopkins.

ENGLYN I ORPHWYSFA.

Mae mad, anwyl wlad y nef,—a didawl
Wyntydedig dangnef,
I bob gradd mae Duw 'n addef,
A fu byw yn ei Fab Ef.

R. D.

JENKIN HOWELL, ARGRAFFYDD, ABERDAR.

TALIADAU.

D. D., Llanelly; D. E., Troedyrhiw; J. E., Newcastle; D. T., Liverpool; T. D., Dolbwba; J. E., Blaenllechau; E. G., Aberdare; J. Ll., Pantyscawen; T. H., Cymer; T. Ll., Porthcawl; S. E., Frowen; J. R., Machynlleth; T. J. P., Blaenddewifawr; J. J., (Eiddil Cynon); J. J., Cwmbargod; D. J., (Dewi Iago); J. E., Nantgwyn; M. R., Brechfa; J. J., Hendryd; W. L., Pontypridd; D. E., Tregroes.; C. W., London.

EISTEDDFOD CAPEL-IFAN.

Bwriedir cynnal Eisteddfod yn Nghapel Ifan, Mai 20, 1875, pryd y rhoddir dros ugain o wobrwyon i'r ymgeiswyr buddugol mewn Cerddoriaeth, Traethodau, Barddoniaeth, &c.

Yr elw at leihau y draul yn ail-wneyd tŷ cwrdd yr Undodiaid, Panteg.

Anfonir rhestr o'r holl destynau yn nghyd â'r amodau ar dderbyniad dau stamp ceiniog, gan yr Ysgrifenydd,

Mr. JOHN BOWEN,
Llwyn Einon,
Newcastle-Emlyn.

Ail Eisteddfod Flynyddol Gellionen,

A gynnelir Mai 17eg, sef Llun y Sulgwyn, pryd y gwobrwyir yr ymgeiswyr buddugol mewn traethodi, barddoni, canu, ac adrodd. Ceir y Program am y pris arferol gan yr Ysgrifenydd, Mr. Lewis Hopkins, Cathelid Farm, Clydach, Nr. Swansea.

GWELLIANT GWALLAU.

Yn rhifyn Chwefror, tud. 276, llin. 2 o'r gwaelod, darllener '*arferion* drwg'; tud. 278, llin. 34, 'cymer *afael* ar, &c.'; tud. 280, llin. 4, 'dysgwyliedig [fyned i golli] am, &c.'; tud. 282, llin. 6 o'r gwaelod, yn lle Lewis Lewis, darllener *Simon* Lewis. Yn rhifyn Mawrth, tud. 4, llin. 5, 'hen ddeiwen uchelfrig'; tud. 20, llin. 2, swllt y *fwyddyn*; tud. 21, enw mab Morgan Jones oedd Tomos.

A

FUNERAL SERMON,

ON THE LATE

THOMAS STEPHENS, ESQ.,

BY

N. R. WILLIAMS, Minister of Twynyrodyn Chapel, Merthyr Tydfil,

PRICE SIX PENCE.

Copies can be had by applying to the Rev. N. R. WILLIAMS, Merthyr.

AT EIN DARLLENWYR.

TELERAU.—Un copi, 3c., gyda'r post 3½.; ar dri chopi a rhagor, telir y cludiad.

Anfoner mewn stamps neu order at—"Rev. W. James, B.A., Oxford Street, Aberdare."

☞ *Pob Archebion a Gohebiaethau i'w hanfon yn gyfeiriedig,—*

The Editor of "Yr Ymofynydd,"
Mount Pleasant Garden,
ABERDARE.